

Sut i:

llenwi ein ffurflen gais

Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni cais yn dilyn yr un fformat ac yn cynnwys y cwestiynau a amlinellir yn y ddogfen hon.

Bydd cwestiynau ychwanegol ar gyfer rhai cronfeydd, neu efallai y bydd y cwestiynau fymryn yn wahanol. Byddem yn argymhell dechrau llenwi ffurflen ar-lein a chwblhau tudalennau un a dau yn gyntaf, a chadw eich gwaith wrth i chi fynd yn eich blaen.

Dewis iaith

Cewch ddewis llenwi'r ffurflen yn Gymraeg neu yn Saesneg ar ddechrau'r ffurflen gais:

Community Foundation Wales Sefydliad Cymunedol Cymru

Save my progress and resume later | [Resume a previously saved form](#)

Please select which language you want to complete this application form in?

Dewiswch ym mha iaith rydych chi am llenwi'r ffurflen gais hon?

*

- Cymraeg / Welsh
 English / Saesneg

Next Page

Yr opsiwn i gadw eich gwaith

Byddwch hefyd yn sylwi eich bod yn cael cynnig yr opsiwn i gadw eich gwaith a dod yn ôl ato rywbyrd eto ar frig pob un o dudalennau'r ffurflen.

Resume Later

In order to be able to resume this form later, please enter your email and choose a password.

Your Email:

A Password:

Confirm Password:

Save

Os na hoffech lenwi'r ffurflen gyfan mewn un sesiwn, ticiwch y blwch hwn a bydd y system yn gofyn i chi ddewis cyfrinair. Rydym yn argymhell y dylech gadw'r ffurflen yn rheolaidd, rhag ofn i chi gollu cysylltiad â'r rhyngwyd neu eich cyflenwad trydan yn annisgwyl. Ni allwn adalw gwybodaeth na chafodd ei chadw.

Gallwch ddod yn ôl at y ffurflen hon unrhyw bryd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofio'r cyfeiriad e-bost a'r cyfrinair rydych chi newydd eu rhoi. Bydd eu hangen arnoch i ddod yn ôl at eich ffurflen.



PWYSIG: Ystyrir bod eich cais yn anghyflawn nes i chi ddod yn ôl at y ffurflen a phwyso'r botwm cyflwyno.

Y dudalen gyntaf

Ar ddechrau'r ffurflen, bydd cwestiynau'n cael eu gofyn i chi am eich sefydliad, gan gynnwys cyfeiriad a phrif fanylion cyswllt y sefydliad, manylion ei gyfrifon yn y cyfryngau cymdeithasol a chyfeiriad ei wefan, y math o sefydliad a'i rif cofrestru os yw hynny'n berthnasol, niferoedd staff, incwm/gwariant a chronfeydd wrth gefn yn y cyfnod cyfrifyddu diwethaf a disgrifiad o nodau ac amcanion y sefydliad.

Y Sefydliad

Enw'r Sefydliad / Grwp *

Cyfeiriad (Llinell 1) *

Cyfeiriad (Llinell 2)

Tref/Dinas *

Sir *

Cod Post *

Rhif Ffon Cyffredinol *

Cyfeiriad Ebst Cyffredinol *

Gwefan

Cyfryngau Cymdeithasol

 Twitter

 Facebook

 Instagram

Manylion Eraill

Dyddiad Sefydlu

Sut fath o sefydliad ydy chi? *

- Grŵp Cymunedol Cyfansoddedig
- Elusen Gofrestredig
- Sefydliad Corfforedig Elusennol
- Cwmni wedi'i gyfyngu trwy warant
- Cwmni Budd Cymunedol
- Clwb neu Gymdeithas anghorfforedig
- Arall

Ydych chi'n rhan o sefydliad rhanbarthol neu genedlaethol mwy?

- Ydym
- Na

Yn y flwyddyn diwethaf

Incwm *

Gwariant *

Arian Gyfyngiedig Wrth Gefn *

Staffio a Gwirfoddolwyr

Staff / gweithwyr amser llawn *

Staff / gweithwyr rhan amser *

Ymddiriedolwyr / Pwyllgor Rheoli *

Gwirfoddolwyr (heb gwynnwys Pwyllgor Rheoli) *

Disgrifiwch nod ac amcanion cyffredinol eich sefydliad a'r gweithgareddau neu'r gwasanaethau y mae eich sefydliad yn eu darparu *

Yr ail dudalen

Bydd angen i chi lanlwytho tair dogfen allweddol gan gynnwys:

- Dogfen lywodraethu'r sefydliad (os nad ydych yn siŵr pa ddogfen i'w lanlwytho yma, cliciwch yma)
- Cyfrifon ariannol diweddaraf y sefydliad neu'r Daflen Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.
- Eich Polisi Diogelu

Supporting Documents

Dogfennau Cefnogol

We need the following documents to process your application
Mae angen y dogfennau canlynol arnom i brosesu eich cais

Governing Documents
Dogfennau Llywodraethol *

Choose File No file chosen

Accounts for the last year
Cyfrifon y flwyddyn diwethaf *

Choose File No file chosen

Safeguarding Policy
Polisi Diogelu *

Choose File No file chosen

Equality & Diversity Policy
Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Choose File No file chosen

Please ensure you save your form to avoid losing any content you should save before you exit if you wish to finish your application later (click save option above)

Gwnewch yn siŵr eich bod yn arbed eich ffurflen er mwyn osgoi colli unrhyw gynnwys y dylech ei gadw cyn i chi adael os ydych am orffen eich cais yn hwyrach ymlaen (cliciwch ar yr opsiwn 'Save' uchod)

Previous Page

Next Page

Y drydedd dudalen

Bwriedir i'r cwestiynau hyn ein helpu i ddeall eich cais am gyllid:

A oes teitl i'r prosiect rydych yn gwneud cais am gyllid ar ei gyfer? Os ydych yn gwneud cais am gostau craidd, ysgrifennwch 'Cyfraniad at ein Costau Craidd' yma.

m faint o amser y bydd y prosiect hwn yn para? E.e. a ydych yn gwneud cais am gyllid am flwyddyn, am ddwy flynedd neu am dair blynedd?

Manylion y Cais

Enw'r Cais *

Hyd *

Dyddiad Cychwyn *



PWYSIG – Wrth ystyried y dyddiad dechrau, cofiwch ei bod yn cymryd hyd at ddau fis i ni brosesu eich cais. Felly, ni fyddem yn argymhell rhoi dyddiad dechrau sydd lai na dau fis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y gronfa neu, os nad oes gan y gronfa ddyddiad cau, ddau fis ar ôl dyddiad cyflwyno eich cais.

Rhowch grynodeb byr o'ch anghenion cyllido

*

Sut mae rhoi crynodeb byr o'ch anghenion ariannu?

- Bydd angen ysgrifennu dwy neu dair brawddeg am y rhai y byddwch yn gweithio gyda nhw, e.e. pobl hŷn yn yr ardal leol, sut y byddwch yn gweithio gyda nhw, e.e. un gweithdy ffitrwydd dwy awr o hyd bob wythnos dros gyfnod o flwyddyn, a'r hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni o ganlyniad i'r gwaith hwn, e.e. gwella symudedd, llai o bobl yn teimlo'n ynysig ac ati.
- Os ydych yn gwneud cais am gostau craidd, rhowch wybod i ni pa fath o gostau y byddech yn gobeithio eu talu a sut y bydd hyn o fudd i waith eich sefydliad, gan gyfeirio at ffocws y meini prawf os bydd angen.

Pa gyfleoedd ydych chi wedi'u nodi i wella'r gwasanaeth rydych chi'n ei gynnig i'ch buddiolwyr? O ystyried y ffocws o fewn y Meini Prawf, mae gennym ddiddordeb clywed am:

- Sut rydych chi wedi ymgysylltu â'ch buddiolwyr?
- Sut rydych chi'n gweithio gyda grwpiau ac asiantaethau eraill i ddarparu rhwydwaith o gefnogaeth?
- Beth yw eich cryfderau penodol?
- Sut rydych chi'n defnyddio'ch cryfderau i ychwanegu gwerth at waith eraill?

*

O ystyried ffocws ariannu Meini Prawf y Grant, rydym yn awyddus i glywed am y canlynol:

- A ydych chi wedi ymgysylltu â'ch buddiolwyr?
- Sut rydych chi'n gweithio gyda grwpiau ac asiantaethau eraill, boed yn statudol neu yn y trydydd sector, i ffurfio rhwydwaith cymorth? E.e. cyfeirio, llwybrau atgyfeirio
- Beth yw eich cryfderau penodol fel sefydliad?
- Sut rydych chi'n defnyddio eich cryfderau i ychwanegu gwerth at waith pobl eraill? E.e. rhannu adnoddau, hyfforddiant

Pa newidiadau cadarnhaol ydych chi'n disgwyl i'ch prosiect eu cyflwyno i unigolion, grwpiau a'r cymunedau ehangach rydych chi'n gweithio gyda nhw?

Ystyriwch y bobl rydych chi'n gweithio'n uniongyrchol gyda nhw, eu teuluoedd a'u ffrindiau yn ogystal â'r gymuned ehangach maen nhw'n byw ee. Llai o arwahanrwydd / mwy o ymgysylltiad cymunedol / gwell dealltwriaeth ac ati. Sut byddwch chi'n gwybod bod y newidiadau hyn wedi digwydd? *

Hoffem wybod pa wahaniaeth y bydd y grant hwn a'r prosiect rydych chi wedi'i amlinellu yn ei wneud yma –

- Meddyliwch am y bobl rydych chi'n gweithio'n uniongyrchol gyda nhw, eu teuluoedd a'u ffrindiau yn ogystal â'r gymuned ehangach lle maent yn byw, e.e. llai o bobl yn teimlo'n ynysig / mwy o ymgysylltu â'r gymuned / gwell dealltwriaeth ac ati.
- Sut y byddwch chi'n gwybod bod y newidiadau hyn wedi digwydd? E.e. pa ddata y byddwch chi'n eu casglu i roi gwybodaeth i chi? Pwy y byddwch chi'n siarad â nhw a allai gydnabod y newidiadau a wnaed o bosibl?

Demograffeg

Faint o wirfoddolwyr y byddwch chi'n gweithio gyda nhw? *

Faint o fuddiolwyr y byddwch chi'n gweithio gyda nhw? *

Pa categori oedran maen nhw'n ffitio i mewn yn bennaf? *

Prif Fuddiolwr *

Ethnigrwydd Cynradd

Is-Ethnigrwydd Cynradd

- Faint o wirfoddolwyr y byddwch yn gweithio gyda nhw?
- Faint o fuddiolwyr y byddwch yn gweithio gyda nhw?
- I ba categori oedran y maent yn perthyn yn bennaf? (cwymplen yw hon)
- Prif grŵp buddiolwyr (cwymplen yw hon)
- Prif grŵp ethnigrwydd (cwymplen yw hon)
- Prif grŵp is-ethnigrwydd (cwymplen yw hon)



PWYSIG – noder y bydd yn ofynnol i chi adrodd yn ôl ar y rhain yn y ffurflen fonitro os bydd eich cais yn llwyddiannus. Rydym yn sylweddoli na fyddwch yn gallu rhoi ateb pendant yma, ond byddwch yn realistig.

Cyllid

Cyfanswm y Cost Disgwyliedig

*

£

Faint o arian ydych chi'n gwneud cais i ni amdano? (Rhwyng £500 - £2,000 pob blwyddyn) *

£

Sut ydych chi am godi'r costau sy'n weddill (os yw'n berthnasol)

Pa gostau ydych chi'n disgwyl i'r cyllid eu talu? *

- Cyfanswm cost ddisgwyliedig (punnoedd yn unig, does dim angen defnyddio ceiniogau)
- Faint o arian ydych chi'n gwneud cais i ni amdano? (punnoedd yn unig, does dim angen defnyddio ceiniogau)
- Sut ydych chi'n bwriadu codi'r costau sy'n weddill? (Os yn berthnasol)
- Mae angen i chi gwblhau'r adran hon os yw eich 'Cost Cyfanswm Disgwyliedig' yn uwch na'r swm y mae eich cais i ni amdano. Esboniwch sut bydd y gweddill yn cael ei godi. Os ydych chi wedi ymgeisio i gyllidwyr eraill, dywedwch wrthym pwy rydych chi wedi gwneud cais iddo a phryd rydych chi'n debygol o glywed y canlyniad. Os oes gennych chi ddigwyddiad codi arian ar y gweill, pa ddyddiad mae hynny'n digwydd a beth yw'r targed ar gyfer y diwrnod?
- Pa gostau ydych chi'n disgwyl i'r cyllid hwn eu talu? Os ydych yn gofyn am gostau craidd, manylwch ar eich costau craidd llawn. Mae hi'n ddefnyddiol i ni gael gweld sut mae'r costau wedi'i rhannu allan yma, er enghraifft -
 - Rhent - £100 y mis
 - Treuliau Gwirfoddolwyr - £60 yr wythnos

A fydd y prosiect hwn yn parhau? *

Os Oes, dywedwch wrthym sut rydych chi'n bwriadu cynnal / ariannu'r costau hwn yn y tymor hir.

Ee. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan wirfoddolwyr, bydd rhaglen hyfforddi yn datblygu tîm o wirfoddolwyr i barhau â'r gwaith hwn am gost is / cysylltir â chyllidwyr eraill / roedd y cais am gostau sefydlu - bydd y prosiect yn hunangyllidol wrth symud ymlaen. *

Hoffem wybod a fydd y prosiect hwn yn parhau ar ôl i'n cymorth ni ddod i ben. Ni fydd pob prosiect yn parhau, ac ni chewch eich cosbi am ddweud 'Na fydd' yma os na fydd angen y prosiect wedyn. Efallai y bydd y prosiect yn diwallu'r angen o fewn blwyddyn.

Os 'Bydd', dywedwch wrthym sut y byddwch yn cynnal y prosiect. A fyddwch yn gwneud cais i gyllidwyr eraill er mwyn talu'r costau yn y dyfodol ac, os felly, pwy y byddwch yn cysylltu â nhw? Os bydd y grant rydych yn gwneud cais amdano yn talu am hyfforddi gwirfoddolwyr neu brynu cyfarpar, efallai y gallai'r prosiect barhau heb lawer o fewnbwn ariannol.

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn cydnabod ei gyfrifoldeb i helpu i ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru er budd cenedlaethau'r dyfodol. Credwn fod gan bob un ohonom ran i'w chwarae a bod gan newidiadau, waeth pa mor fach, y potensial i wneud gwahaniaeth go iawn.

O ystyried y pryderon cynyddol ynghylch argyfwng hinsawdd, rydym yn awyddus i glywed gan ein hymgeiswyr am y camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rhannwch gyda ni un peth y mae eich sefydliad yn ei wneud / y bydd yn ei wneud i gefnogi'r her hinsawdd.

Ee. Creu arwyddion i atgoffa defnyddwyr i ddiffodd yr holl oleuadau ac offer pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio, aildefnyddio ac ailgylchu dillad, gan annog dulliau cludo mwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

*



Rydym wedi ychwanegu'r cwestiwn hwn ar bob un o'n ffurflenni cais er mwyn cael gwybod sut mae sefydliadau fel eich un chi yn ystyried yr amgylchedd wrth ddarparu eich gwasanaethau a/neu gynnal eich prosiectau. Ni chaiff yr ateb i'r cwestiwn hwn ei asesu pan fyddwn yn ystyried eich cais am gyllid. Rydym yn defnyddio'r atebion a roddir i ddysgu a chasglu tystiolaeth o'r math o gymorth ariannol y bydd ei angen neu na fydd ei angen ar y sector er mwyn bod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd yn y dyfodol.

Y bedwaredd dudalen

Bydd y dudalen olaf yn gofyn i chi am fanylion cyswllt y person sy'n llenwi'r ffurflen, sef y sawl a ddaw'n brif gyswllt pan fyddwn yn prosesu'r cais.

Bydd hefyd angen i chi gytuno â'r datganiad canlynol –

Datganiad

A allwch gadarnhau'r canlynol:

- Mae gennyf awdurdod i wneud y cais ar ran y sefydliad uchod (rwy'n aelod o'r pwyllgor rheoli neu'n aelod o staff uwch)
- Rwy'n tystio bod y wybodaeth a gynhwysir yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth
- Os bydd y wybodaeth yn y cais yn newid mewn unrhyw ffordd, byddaf yn hysbysu Sefydliad Cymunedol Cymru ar unwaith
- Rwy'n rhoi caniatâd i Sefydliad Cymunedol Cymru gofnodi'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn electronig ac i gysylltu â'm sefydliad dros y ffôn, post neu e-bost gyda gwybodaeth am ei weithgareddau ac am gyfleoedd cyllido yn y dyfodol.
- Rwy'n ymwybodol, os na fyddaf yn cynnwys y dogfennau ategol a restrir o fewn yr amserlen ofynnol (e.e. cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf a dogfennau llywodraethu eich sefydliad), bydd fy nghais yn anghymwys.
- Mae gan y sefydliad Bolisi Diogelu sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Rwy'n cytuno ac wedi darllen a deall yr uchod *

Rwy'n rhoi caniatâd i Sefydliad Cymunedol Cymru ddefnyddio manylion o'r cais hwn at ddibenion marchnata pe bai grant yn cael ei gymeradwyo gan y panel



PWYSIG - Peidiwch â thicio'r blwch hwn oni bai bod gennych yr awdurdod i wneud hynny.

Cyflwyno'r ffurflen

Pan fyddwch yn fodlon ar eich atebion i'r cwestiynau, bydd angen i chi glicio ar

Review Application

Dyma eich cyfle i ddarllen dros y cais am y tro olaf cyn clicio ar y botwm cyflwyno.

Wedyn, cliciwch ar y botwm cyflwyno pan fyddwch yn hapus. Bydd angen i chi ddilyn y camau i lofnodi'r ffurflen yn electronig ac wedyn caiff e-bost dilynol ei anfon atoch i gadarnhau bod y ffurflen wedi dod i law ac i wirio'r llofnod electronig.

! **PWYSIG** – bydd angen i chi glicio ar y botwm cyflwyno ar ddiwedd y ffurflen er mwyn i'r panel ei hystyried. Ni fydd y ffurflen yn ein cyrraedd os mai dim ond ei chadw ar y system y byddwch wedi'i wneud.

Newidiadau ar ôl Cyflwyno

Os bydd unrhyw newidiadau i fanylion y prosiect ar ôl i chi gyflwyno'r ffurflen, anfonwch ddiweddariad atom yn grants@communityfoundationwales.org.uk. Cofiwch gynnwys cyfeirnod y cais (yn dechrau ag FR-00) yn eich e-bost er mwyn i ni allu dod o hyd i'ch cais ar ein system.

Er enghraifft, os bydd cyllidwr arall wedi cytuno i helpu i dalu rhai o'r costau a bod angen i chi leihau'r cyfanswm y bydd angen i chi ei gael gennym ni.

Cymorth sydd ar gael

Mae'r Tîm Grantiau yma yn Sefydliad Cymunedol Cymru yma i'ch helpu i wneud cais.

Ni fyddwn yn gallu darllen dros geisiadau drafft cyn iddynt gael eu cyflwyno ond gallwch drefnu galwad neu e-bostio grants@communityfoundationwales.org.uk os ydych nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys i gael arian o'r gronfa neu beth i'w gynnwys yn yr atebion i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod.